# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda
(155)v5

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** Ymhellach i drafodaethau cychwynnol â'i berchnogion, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch hyfywedd Unity Mine yn y dyfodol, yn dilyn cadarnhad ei fod wedi gwneud cais i fynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor**

**NNDM5335 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol

Ann Jones (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog yn lle Ken Skates (Labour).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (30 munud)**

**5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Bysiau Arriva Cymru (30 munud)**

**6 Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: "Gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru - Adolygiad Cymru 2012-13" (60 munud)**

**NDM5327 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 'Cydweithio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru'.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella safon ac argaeledd gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i annog dioddefwyr troseddau casineb a cham-drin domestig i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod aelodaeth byrddau'r

sector cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn fwy cywir.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn cyfleoedd gwaith o bob math.

**Dogfen Ategol**

Gellir gweld copi o'r adroddiad drwy'r linc a ganlyn:

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/Welsh/wales_review_2013_welsh.pdf

**7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13 (60 munud)**

**NDM5326 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Medi 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hyn a mynd i'r afael â hyn, boed hwnnw'n gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2012/13

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 16 Hydref 2013